

CDL12

Ceredigion

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd
2018 - 2033**

**Y Strategaeth a Ffeirir
Crynodeb Gweithredol**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123


Pwrpas y ddogfen hon

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi trosolwg byr o themâu allweddol yr adolygiad a sut y mae'r materion hyn wedi dylanwadu ar y newidiadau a gynigir yn Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLI2).

Beth yw'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt yn CDLI2?

Roedd Adroddiad yr Adolygiad (2018) wedi nodi'r materion allweddol canlynol y mae angen rhoi sylw iddynt yn CDLI2; cafodd y rhain eu hasesu o ganlyniadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ac ymchwil diweddar a diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth. Ers cyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad mae'r materion hyn wedi cael eu gweithredu arnynt a chwblhawyd darnau unigol o waith ymchwil a thystiolaeth (fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cefndir a'r papur pwnc) er mwyn asesu sut i newid y polisïau a rheoli'r materion hyn. Mae'r ddogfen y Strategaeth a Ffefrir a'r atodiadau yn benllanw'r newidiadau hyn ac wedi diwygio polisïau a thestun – wedi'u newid yn benodol i roi sylw i'r materion hyn.

Mater Allweddol o Adroddiad yr Adolygiad



1. Trosolwg o'r newidiadau o CDLI1 i CDLI2


Beth yw graddfa'r newidiadau arfaethedig o CDLI 1 i CDLI2?

Nododd Adroddiad yr Adolygiad fod llawer o'r strategaeth yn addas i'r diben ac yn gweithio'n dda, felly bydd prif elfennau'r CDLI yn parhau yr un fath. Ceir newidiadau arfaethedig i raddfa'r twf, y strategaeth anheddu, y grwpiau aneddiadau ac i rai o'r polisïau rheoli datblygu a defnydd tir, ond nid yw llawer o'r polisïau yn newid. Mae'r cynllun wedi cael ei ddiwygio hefyd i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfarwyddyd ers mabwysiadu CDLI1 yn 2013. Cwblhawyd adolygiad o'r holl ganolfannau gwasanaethau a safleoedd a neilltuwyd ac o ganlyniad gwnaethpwyd newidiadau i ddarparu ar gyfer y newidiadau yn y patrymau twf, ond mewn sawl achos ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r canolfannau gwasanaethau a'r grwpiau aneddiadau.

Sut mae'r polisïau wedi cael eu newid?

Nid yw pob polisi yn CDLI1 wedi cael ei newid ac mae'r diagram canlynol yn amlinellu graddfa'r newidiadau arfaethedig:

Newidiadau Polisi Unigol



Beth yw cyfnod arfaethedig y Cynllun?

Bydd CDLI2 yn rhedeg o 2018 i 2033 – cynllun cyfnod o bymtheg mlynedd. Fodd bynnag bydd polisïau yn gymwys dim ond ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu, a ragwelir y bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd 2021.

2. Strategaeth Twf CDLI2

Beth yw strategaeth anheddu arfaethedig CDLI2?

Mae Strategaeth Anheddu CDLI2 wedi cael ei diwygio i adlewyrchu'r ffocws ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 ar greu lleoedd, gan gynnwys Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer cynllunio. Felly yn CDLI2 mae tai marchnad agored yn cael eu cynnig mewn aneddiadau a neilltuwyd fel Canolfannau Gwasanaethau yn unig a/neu sydd â mynediad i lwybrau teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw ddarpariaeth yn cael ei chynnig ar gyfer unrhyw dwf mewn tai marchnad agored mewn pentrefi/pentrefi bach sydd heb unrhyw lwybrau trafndiaeth gyhoeddus, a thai wedi'u cefnogi gan bolisi cenedlaethol yw'r unig fathau derbynol o ddatblygu yn y lleoliadau hyn.

Canrannau'r Strategaeth Anheddu

Haen Aneddiad	Dosbarthiad Presennol	Canran y twf a neilltuwyd
CGT	51%	55%
CGG	24%	20%
ACM (Anheddiad Cyswllt Mawr)	25%	15%
ACC (Anheddiad Cyswllt Cynaliadwy)		10%
Anheddiad Cyswllt a Lleoliadau Eraill		0%

3. Amcanestyniadau o'r Boblogaeth

Faint o dwf a gynigir yn CDLI2?

Disgwylir cynllunio ar gyfer 3000 o anheddau yn CDLI2, sy'n ffigur wedi'i addasu yn ôl polisi a gafodd ei gymryd o brif amcanestyniad 2014. Caiff peth o'r twf hwn ei ddarparu ar ei gyfer gan ganiatadau sy'n sefyll (cynigir bod oddeutu 600 yn cael eu cario ymlaen i CDLI2). Caiff y mwyafrif ohonynt eu darparu ar eu cyfer ar safleoedd a

neilltuwyd mewn Canolfannau Gwasanaethau neu'r Aneddiadau Cyswllt Mwy o'u hamgylch.

4. Cyflenwi Tai a'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLA)

Yn CDLI1 nid oedd cyflenwi tai yn unol â'r gyfradd ddisgwyliedig y flwyddyn o 400 o unedau; roedd hwn yn or-amcangyfrifiad o'r angen am dai yn seiliedig ar amcanestyniadau blaenorol Llywodraeth Cymru o'r boblogaeth. Felly mae'r cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn trwy fabwysiadu ffigur mwy realistig ar gyfer twf tai a chyfeirio'r twf hwn at y canolfannau mwyaf cynaliadwy a chyfyngu twf yn y pentrefi a phentrefi bach llai o faint.


Beth yw lefel y twf a gynigir ym mhob haen anheddiad?

Lefel y Twf a Gynigir yn ôl Haen Anheddiad

Math o anheddiad	Canran cyfran twf	Nifer yr unedau a gynlluniwyd	Cyfanswm gofyniad blynyddol
CGT	55%	1320	88
CGG	20%	480	32
ACM	15%	360	24
ACC	10%	240	16
AC a LIE	0%	0	0
Cyfanswm	100%	2400	160

Mae'r lefelau twf a gynigir yn CDLI2 yn fwy realistig na'r rhai a gynigir yn CDLI1 ac mae'r tabl uchod yn dadansoddi hyn fesul haen anheddiad, gan gymryd bod 600 o ganiatadau sy'n sefyll yn cael eu cario ymlaen i CDLI2.


Canran y twf a neilltuwyd ar draws yr hierarchaeth anheddu



Sut mae'r lefel twf a gynigir yn cymharu â chyfraddau adeiladu yn y gorffennol?


Mae'r graff canlynol yn amlinellu'r cyfraddau adeiladu yn y gorffennol ar gyfer yr 11 o flynyddoedd blaenorol wedi'i gymryd o'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mae hyn yn dangos, dros cyfnod y cynllun nesaf, bod modd cyflenwi 160 o unedau y flwyddyn.

Cyfraddau adeiladu yn y gorffennol 2007-2018



5. Pa fath o dwf a gynigir ym mhob haen anheddiad?

Mathau o Ddatblygu Derbyniol fesul Haen Anheddiad



Mae’r diagram uchod yn dangos mai dim ond polisi cenedlaethol sy’n dderbyniol yn yr ardaloedd hynny sy’n llai cynaliadwy. Yn yr ardaloedd a wasanaethir gan drafnidiaeth gyhoeddus sydd â mynediad i amrywiaeth o wasanaethau a/neu lwybrau teithio llesol, caiff datblygu a neilltuwyd a datblygu ar hap-safleoedd eu cefnogi.

Datblygu derbyniol fesul haen anheddiad o’i gymharu â’r stoc bresennol

Math o Anheddiad	Datblygu Arfaethedig	Nifer y stoc tai bresennol	Canran y cyfanswm stoc tai bresennol
CGT	Safleoedd a neilltuwyd, hap-safleoedd, tai marchnadol a thai fforddiadwy	14458	41.0%
CGG	Safleoedd a neilltuwyd, hap-safleoedd, tai marchnadol a thai	5132	14.5%

	fforddiadwy		
Aneddiadau Cyswllt Mwy (ACM)	Safleoedd bach a neilltuwyd, hap-safleoedd, tai marchnadol a thai fforddiadwy	1295	3.7%
Aneddiadau Cyswllt	Tai marchnadol cyfyngedig ar hap-safleoedd (fesul 1 a 2) yn yr Aneddiadau Cyswllt Cynaliadwy a thai fforddiadwy a pholisi cenedlaethol yn unig yn yr aneddiadau cyswllt heb fod yn gynaliadwy	4192	11.9%
Lleoliadau eraill	Polisi cenedlaethol yn unig	10193	28.9%
Cyfanswm		35270	100%

Mae'r tabl uchod yn dangos bod CDLI2 yn cynnig symud datblygu o ardaloedd mwy gwledig i'r lleoliadau mwy cynaliadwy yn y canolfannau gwasanaethau neu'r ardaloedd sydd â mynediad iddynt. Dylai'r newidiadau hyn, ochr yn ochr â'r rhai a gynigir ar gyfer y mathau o safleoedd a neilltuwyd (h.y. safleoedd llai a neilltuwyd sy'n fwy addas i ddatblygwyr lleol) fynd i'r afael â'r materion o dan gyflenwi yn y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai a chynyddu banc tir y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai i'r ffigur 5 mlynedd yn hytrach na'r ffigur cyfredol (2019) o 1.7 o flynyddoedd.

6. Dyrannu Safleoedd (Tai, Manwerthu, Cyflogaeth ac Ynni Adnewyddadwy)

Pam mae'r lleoedd a ddynodwyd ar gyfer twf yn gynaliadwy?

Y Canolfannau Gwasanaethau Trefol yw'r 6 thref fwyaf a mwyaf bywiog yn y sir lle ceir mynediad i'r nifer fwyaf o wasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yw'r 16 o aneddiadau ar draws y sir sydd â'r nifer fwyaf o wasanaethau sydd ar gael yn lleol, gan gynnwys ysgolion, siopau ac ati. Mae ganddynt i gyd fynediad i drafndiaeth gyhoeddus ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae'r Aneddiadau Cyswllt Mwy, ac mae 5 ohonynt, i gyd yn bentrefi o gwmpas trefi sydd â dros 150 o anheddau a llwybrau teithio llesol a/neu drafndiaeth gyhoeddus reolaidd i'r ganolfan drefol; mae gan y rhan fwyaf ohonynt amrywiaeth o wasanaethau ond yn ddibynnol yn weithredol ar y ganolfan drefol. Mae'r Aneddiadau Cyswllt Cynaliadwy, ac mae 22 ohonynt, yn bentrefi sy'n amrywio o ran maint o 60 i 90 o unedau sydd â mynediad i ganolfannau trefol trwy drafndiaeth gyhoeddus (taith o 30 munud ar y mwyaf) ar gyfer oriau gweithio cyfartalog. Mae ganddynt rai amwynderau pentref yn aml a cheir ysgolion mewn rhai ohonynt.

Mae pob anheddiad arall yn y sir, waeth beth fo'i faint, wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes llwybrau trafndiaeth cynaliadwy ganddynt neu nid ydynt yn cyfrannu at ganlyniadau cenedlaethol creu lleoedd. Trwy ganolbwyntio twf yn y canolfannau mwyaf cynaliadwy gyda 70% o'r twf arfaethedig yn cael ei gynnig yn y canolfannau trefol ac o gwmpas trefi, gallwn sicrhau bod y technolegau newydd yn cael eu cyfeirio at yr ardaloedd hynny, gan ganiatáu mynediad i dechnoleg gyfathrebu a datblygu mwy strategol o'r seilwaith ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel lawn.

Bydd dyrannu safleoedd unigol yn cael eu cynnig yng ngham nesaf llunio'r Cynllun Adnau. Yn wahanol i CDLI1 bydd ffocws ar ddyraniadau tai llai ar draws ystod ehangach o aneddiadau sy'n hygyrch ac yn ddeniadol i ddatblygwyr lleol, lle mae'r sawl sy'n cynnig y safle wedi dangos bod modd ei gyflenwi.

Mae astudiaethau amrywiol wedi cael neu wrthi'n cael eu cynnal er mwyn ystyried ble y dylai dyraniadau eraill fynd rhagddynt a dyraniadau o ba faint ddylai fynd rhagddynt. Mae'r rhain at ddibenion cyflogaeth, manwerthu ac ynni adnewyddadwy a chaiff y dyraniadau hyn eu hamlinellu yn y cynllun adnau, gan gofio'r newidiadau arfaethedig sydd ar ddod yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r cynlluniau i dyfu a hybu'r economi leol trwy bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

7. Hyfywedd Tai Fforddiadwy

Mae astudiaeth hyfywedd strategol leol wedi cael ei chynnal a ddaeth i'r casgliad bod angen targedau wedi'u hamrywio rhanbarthol arnom ar gyfer tai fforddiadwy ar draws y sir yn seiliedig ar amodau'r farchnad dai leol. Mae'r dystiolaeth hon yn cael ei diweddarau trwy gydweithrediad rhanbarthol ar hyfywedd gydag Asesiad Hyfywedd Strategol Canolbarth, De a Gorllewin Cymru, a disgwylir i ganlyniad hyn gael ei gyhoeddi yn haf 2019 a bydd yn bwydo i mewn i'r cynllun adnau. At hynny, mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol rhanbarthol yn cael ei gynnal a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn haf 2019 a fydd hefyd yn llywio lefelau y tai fforddiadwy sy'n ofynnol ar draws y sir. Ar y cam hwn mae polisi S05 Tai Fforddiadwy wedi cael ei gynnwys, ond nid yw'r manylion ynghylch nifer y tai fforddiadwy wedi cael eu cwblhau hyd nes bod canlyniadau'r astudiaethau rhanbarthol ar gael.

8. Yr Iaith Gymraeg

A fydd lefel y twf a gynigir yn niweidio'r Gymraeg a diwylliant Cymreig?

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn unol â TAN 20 sydd wedi dangos nad oes disgwyl i'r twf a gynigir achosi niwed i'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn lleol oherwydd fe'i cynigir mewn aneddiadau cynaliadwy.

Mae'r polisiâu sy'n cyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn y CDLI wedi cael eu cryfhau ac mae'r CDLI wedi dosbarthu'r sir gyfan fel un sy'n sensitif yn ieithyddol sy'n golygu bod angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar bob ddatblygiad ar hap-safle gyda mwy na 5 uned.

Mae'r Polisi Iaith Gymraeg Strategol arfaethedig i'w weld isod:

Polisi S06:**Cynllunio a'r Gymraeg**

Bydd y Cyngor Sir yn hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg trwy ddynodi Ceredigion, yn ei chyfanrwydd, yn sensitif yn ieithyddol.

Amcanion: 1 – 8, 11, 16, 18

1,1,1 Yn y Cynllun Adneuo, bydd Polisi DM01 yn nodi darpariaethau manwl:

- Sy'n gofyn am asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, a fydd yn nodi sut bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg, lle mae'r datblygiad arfaethedig ar safle hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai neu gyflogaeth ar raddfa fawr.
- Ar gyfer cymhwyso ffactorau lliniaru ar gyfer unrhyw ffactorau negyddol cynnig datblygu, trwy'r system gynllunio, a bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi er mwyn darparu canllawiau pellach ar y math o wybodaeth neu asesiad a fydd ei angen yn ystod cyfnod y cais cynllunio i lywio asesiad o'r effaith, unrhyw niwed posibl, a'r angen posibl am fesurau lliniaru a/neu fesurau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

9. Deddfwriaeth newydd

Ers mabwysiadu CDLI1 mae cyfres o ddeddfwriaeth newydd wedi cael ei chyflwyno gan gynnwys Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2016 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae cynlluniau a pholisïau'r Strategaeth a Ffefrir wedi cael eu diweddarau a'u diwygio trwyddi draw er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn deddfwriaeth a chyfarwyddyd. Ond, gan gyfeirio'n benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, mae gofynion penodol o ran dulliau gweithio a disgwyliadau polisi wedi cael eu gwneud, ac fe'u hamlinellir isod.

Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) wedi cael eu hystyried yn y cynllun?

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cynnal ymarfer manwl i sicrhau bod gweledigaeth ac amcanion y cynllun ac yna'r polisïau dilynol yn cydymffurfio â'r 7 nod gwelliant. Daethpwyd i'r casgliad eu bod yn gydnaws ac mae nodau'r Ddeddf wedi llywio datblygiad CDLI2. Mae'r Cyngor wedi ceisio defnyddio'r 5 dull gweithio yn ei weledigaeth hirdymor, gan gydweithio'n arbennig ag awdurdodau cyfagos trwy'r dull caffael cydweithredol o'r sylfaen dystiolaeth a'r ymagwedd gydweithredol at gyrraedd targedau tai rhanbarthol a hyfywedd ac ymgysylltu ac ymwneud â'r cyhoedd.

Sut mae Deddf yr Amgylchedd (2016) wedi cael ei hystyried yn y cynllun?

Mae'r cynllun yn gyfle i gofleidio Deddf yr Amgylchedd ac mae hyn wedi cael ei wneud wrth adolygu'r holl bolisïau perthnasol, ac mae adran 6 yn canolbwyntio ar wella'r amgylchedd, rhywbeth sy'n flaenoriaeth ym mhob cynllun a pholisi, ac mae polisïau wedi cael eu hehangu i adlewyrchu hyn. Yn y misoedd nesaf bydd yr awdurdod yn diweddarau ei sylfaen dystiolaeth seiliedig ar y amgylchedd wrth baratoi ar gyfer y Cynllun Adnau a fydd yn cynnwys Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Phapurau Pwnc cysylltiedig a fydd yn ystyried ymhellach oblygiadau Deddf yr Amgylchedd ar y cynllun.

10. Newidiadau Arfaethedig i'r Aneddiadau

Sut mae'r trefi a'r pentrefi unigol wedi cael eu hailddosbarthu yn CDLI2?

Tabl 4 Byrfoddau

CGT	Canolfan Gwasanaethau Trefol
CGG	Canolfan Gwasanaethau Gwledig
ACM	Anheddiad Cyswllt Mawr
ACC	Anheddiad Cyswllt Cynaliadwy
AC	Anheddiad Cyswllt
LIA	Lleoliad Arall
Pol Cen	Polisi Cenedlaethol
TMA Bach	Tai Marchnad Agored Bach (1 a 2 uned)
Saf a Neill	Safleoedd Tai a Neilltuwyd
Hap-saf	Hap-safleoedd Tai

1. Lle mae aneddiadau wedi cael eu **huno** mae hyn yn cynrychioli consensws gweithgor bod y ddau anheddiad yn ffurfio cyd-aneddiad
2. Lle mae aneddiadau wedi cael eu **dileu** mae hyn yn cynrychioli consensws gweithgor bod yr anheddiad yn is na'r trothwy o 37 o unedau
3. Lle mae aneddiadau wedi cael eu **huwchraddio** mae hyn yn cynrychioli consensws gweithgor y gellir cynyddu statws yr anheddiad
4. Mae penderfyniad heb gael ei wneud eto ar statws Horeb oherwydd ei leoliad strategol a'r twf arfaethedig o dan Tyfu Canolbarth Cymru, fodd bynnag, ar sail nifer yr unedau yn unig, yn dechnegol dylai gael ei ddileu

Tabl 5 Cyfansymiau Math o Anheddiad

Math o Anheddiad	Cyfanswm CDLI1	Cyfanswm CDLI2
CGT	7	7
CGG	15	16
ACM	0	5
ACC	0	22
AC	93	44
Cyfanswm	115	94

Aneddiadau Arfaethedig a math o ddatblygiadau

a	b	c
Enw'r Ganolfan Gwasanaethau ac Anheddiad Cyswllt	Math o Anheddiad	Datblygu Posibl
1 Aberaeron (Llwyncelyn / Ffos-y-ffin)		
Aberarth	ACC	TMA Bach
Ciliau Aeron	ACC	TMA Bach
Ffos-y-ffin	Symudwyd i CGT	
Pennant	AC	Pol Cen
2 Aberteifi		
Ferwig	ACC	TMA Bach
Gwbert	AC	Pol Cen
Llangoedmor	AC	Pol Cen
Llechryd	ACM	Saf a Neill+ Hap-saf
Penparc	ACM	Saf a Neill+ Hap-saf
3 Aberystwyth /Llanbadarn Fawr /Waunfawr /Penparcau / Commins Coch / Rhydyfelin		
Blaenplwyf	ACC	TMA Bach
Capel Bangor	ACM	Saf a Neill+ Hap-saf
Capel Seion	AC	Pol Cen
Commins Coch	Symudwyd i CGT	
Goginan	AC	Pol Cen
Llanfarian	ACM	Saf a Neill+ Hap-saf
Llangorwen	AC	Pol Cen
Rhydyfelin	Symudwyd i CGT	
4 Castellnewydd Emlyn (Adpar)		
Betws Ifan	AC	Pol Cen
Beulah	AC	Pol Cen
Brongest	AC	Pol Cen

a	b	c
Enw'r Ganolfan Gwasanaethau ac Anheddiad Cyswllt	Math o Anheddiad	Datblygu Posibl
Bryngwyn	AC	Pol Cen
Cwm Cou	AC	Pol Cen
Llandyfriog	ACC	TMA Bach
5 Llanbedr Pont Steffan		
Betws Bledrws	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Cellan/Fishers Arms	ACC	TMA Bach
Cwrtnewydd	AC	Pol Cen
Drefach / Llanwennog	AC	Pol Cen
Gorsgoch	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Llangybi	ACC	TMA Bach
Llanwnnen	ACC	TMA Bach
Llwyn-y-groes	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Silian	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
6 Llandysul		
Aberbane	Wedi'i uno â Phenrhiwllan	
Capel Dewi (DE)	AC	Pol Cen
Coed y Bryn	AC	Pol Cen
Croeslan	ACC	TMA Bach
Ffostrasol	ACC	TMA Bach
Henllan/Trebedw	ACC	TMA Bach
Horeb	Angen ei ystyried ymhellach	
Maesymeillion	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Penrhiwllan / Aberbanc	ACC	TMA Bach
Pentrellwyn	AC	Pol Cen
Prengwyn	Wedi'i ddileu fel anheddiad	

a	b	c
Enw'r Ganolfan Gwasanaethau ac Anheddiad Cyswllt	Math o Anheddiad	Datblygu Posibl
Rhydowen / Pontsian	AC	Pol Cen
Talgarreg	AC	Pol Cen
7 Tregaron		
Bronnant	AC	Pol Cen
Llanddewi Brefi	ACC	TMA Bach
Llangeitho	ACC	TMA Bach
8 Aberporth / Parcllyn		
Blaenannerch	AC	Pol Cen
Blaenporth	ACC	TMA Bach
Brynhoffnant	Wedi'i uwchraddio i CGG	
Tanygroes	ACC	TMA Bach
Tresaith	AC	Pol Cen
9 Bow Street		
Llandre	ACM	Saf a Neill+ Hap-saf
10 Ceinewydd / Cross Inn		
Caerwedros / Llwyndafydd	AC	Pol Cen
Cross Inn (Ceinewydd/New Quay)	Wedi'i uwchraddio i CGG	
Maen-y-groes	AC	Pol Cen
Pentre'r Bryn / Synod Inn	AC	Pol Cen
Plwmp	AC	Pol Cen
11 Cenarth		
Llandygwydd	AC	Pol Cen
12 Felinfach / Ystrad Aeron		
Cilcennin	AC	Pol Cen
Cribyn	ACC	TMA Bach
Dihewyd	AC	Pol Cen
Talsarn	AC	Pol Cen

a	b	c
Enw'r Ganolfan Gwasanaethau ac Anheddiad Cyswllt	Math o Anheddiad	Datblygu Posibl
13 Llanarth		
Derwen Gam/Oakford	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Gilfachreda	ACC	TMA Bach
Mydroilyn	AC	Pol Cen
14 Llanilar		
Cnwch Coch	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Llanafan	AC	Pol Cen
Llanfihangel y Creuddyn	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Lledrod	AC	Pol Cen
15 Llanon		
Bethania	AC	Pol Cen
Cross Inn (Llanon) / Nebo	AC	Pol Cen
Nebo	Wedi'i uno â Cross Inn	
16 Llanrhystud		
Llangwyrfon	AC	Pol Cen
17 Llanybydder		
Alltyblacca / Highmead	ACC	TMA Bach
Highmead	Wedi'i uno ag Alltyblacca	
18 Penrhyncoch		
19 Ponterwyd		
Ponterwyd	Wedi'i uwchraddio i CGG	
Pontarfynach	AC	Pol Cen
20 Pontrhydfendigaid		
Pont-rhyd-y-groes	AC	Pol Cen
Ysbyty Ystwyth	AC	Pol Cen
Ystrad Meurig	AC	Pol Cen

a	b	c
Enw'r Ganolfan Gwasanaethau ac Anheddiad Cyswllt	Math o Anheddiad	Datblygu Posibl
21 Talybont		
Eglwysfach / Furnace	ACC	TMA Bach
Tre Taliesin	ACC	TMA Bach
Tre'r Ddol	ACC	TMA Bach
22 Y Borth		
Dol-y-bont	Wedi'i ddileu fel anheddiad	
Ynyslas	AC	Pol Cen
23 Brynhoffnant		
Llangrannog	AC	Pol Cen
Pontgarreg	AC	Pol Cen
Sarnau	AC	Pol Cen
Rhydlewis/ Hawen	AC	Pol Cen